# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 22 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gofal Seibiant a Gofal Preswyl ar gyfer Pobl Anabl

**C6 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth gofal seibiant a gofal preswyl ar gyfer pobl ifanc anabl yng Nghymru? (OAQ10442)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am ddarparu gofal seibiant a gofal preswyl ar gyfer pobl ifanc anabl. Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch darparu, cynllunio ac adolygu perfformiad gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc anabl yng Nghymru.

Nod rhaglen Plant yn Gyntaf y Cynulliad yw cynyddu nifer y plant anabl sydd yn derbyn gwasanaethau cefnogi teuluoedd a chynyddu nifer yr oriau a ddarperir gan y gwasanaethau. Bydd hyn yn galluogi plant anabl a'u teuluoedd i fyw bywydau sydd mor gyffredin â phosibl. Ar ben hynny, mae'r Cynulliad wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer lleoli plant dan ofal yng Nghymru. Ymysg pethau eraill, bydd y gweithgor yn ystyried posibiliadau cydweithio agosach rhwng awdurdodau ym maes darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion gofal arbenigol.

### Triniaeth ar Glefydau'r Galon

**C7 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rhestrau aros presennol yng Nghymru am driniaeth ar glefydau'r galon? (OAQ10457) [W]

**Jane Hutt:** Mae mynd i'r afael ag afiechyd coronol y galon a gostwng y marwolaethau, yr afiechyd a'r boen meddwl sydd yn gysylltiedig â'r clefyd hwn yn parhau yn un o brif flaenoriaethau'r Cynulliad i'r NHS yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn monitro'r rhestrau aros am lawdriniaethau ar y galon a gwasanaethau cardioleg. Ar ddiwedd mis Ionawr 2001, yr oedd 885 o bobl ar restr aros cleifion mewnol/achosion dydd ar gyfer llawdriniaethau ar y galon, a 1376 ar y rhestr aros am wasanaethau cardioleg. Mae'r rhestr aros am lawdriniaethau ar y galon wedi dechrau gostwng, ac erbyn hyn mae'r cynnydd yn y rhestr gardioleg wedi sefydlogi.

Yn 2000-01, yn ogystal â'r cynnydd mawr yn y dyraniad ariannol sylfaenol i awdurdodau iechyd, darperais £1.5 miliwn i leddfu'r pwysau gwaethaf sydd ar wasanaethau'r galon, yn ogystal â £25 miliwn tuag at wireddu â blaenoriaethau'r Cynulliad. O'r cyfanswm hwn, mae awdurdodau iechyd yn gwario £3.3 miliwn eleni ar afiechyd coronol y galon, a bydd hyn yn codi i £6 miliwn mewn blynyddoedd sydd i ddod. Bydd hyn yn eu helpu i gwrdd â'r targed a bennwyd yn y ddogfen 'Gwella Iechyd yng Nghymru', na ddylai unrhyw un sydd arno angen llawdriniaeth gyffredin ar y galon orfod aros mwy na 12 mis am ei driniaeth.

Cwblhawyd yr ymgynghoriad ar gynllun gweithredu fframwaith y gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd y galon yng Nghymru, a bydd y cynllun yn cael ei lansio yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn pennu'r amserau hiraf y dylid aros am driniaeth o ran y clefyd hwn.

**Ymddiriedolaethau Ysbytai Cymru**

**C8 David Davies:** A yw ymddiriedolaethau ysbytai Cymru i gael yr un faint o arian ychwanegol â'u cymheiriaid yn Lloegr o ganlyniad i gyllideb 2001? (OAQ10494)

**Jane Hutt:** Mae Edwina Hart wedi egluro yr ystyrir dyrannu'r £100 miliwn ychwanegol, a gaiff y Cynulliad dros dair blynedd, yng nghylch cynllunio'r gyllideb. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio'r holl opsiynau yn hytrach na brysio i benderfynu yn awr.

**Gofal Lliniarol yn yr NHS**

**C9 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr am y sefyllfa bresennol o ran gofal lliniarol yn yr NHS yng Nghymru? (OAQ10443)

**Jane Hutt:** Ers imi gyfarfod â chi a Val Feld ar 14 Chwefror, byddwch yn gwybod bod Pwyllgor Meddygol Cymru yn cynnal adolygiad o wasanaethau poen a gwasanaethau gofal lliniarol Cymru ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad yn cynhyrchu adroddiad ar ddarpariaeth bresennol y gwasanaethau, yn adolygu'r safonau y dylai'r NHS eu cyrraedd ac yn cynhyrchu rhestr o argymhellion ar gyfer datblygiadau yn y gwasanaeth. Byddaf yn amlinellu canlyniad yr adolygiad mewn dadl ar ofal lliniarol a phoen mewn Cyfarfod Llawn fis Ebrill eleni.

Mae swyddogion hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Hosbisau ac Unedau Gofal Lliniarol Arbenigol Cymru i gynhyrchu strategaeth gofal lliniarol i Gymru. Gobeithiaf dderbyn drafft cyntaf y strategaeth ymhen y mis nesaf.

**Y Grŵp Cydlynu Gwasanaethau Canser**

**C10 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y safonau sydd yn ofynnol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan y grŵp cydlynu gwasanaethau canser? (OAQ10498)

**Jane Hutt:** Ffurfiwyd y grŵp cydlynu gwasanaethau canser yn 1997 i fwrw ymlaen â gwaith adroddiad Cameron ym maes datblygu gwasanaethau canser yng Nghymru. Cyn hynny, yr oedd y grŵp wedi cyhoeddi safonau gofal sylfaenol ar gyfer pob prif fath o ganser, ac ar gyfer gofal lliniarol arbenigol. Cafodd y safonau hyn eu hadolygu yr hydref diwethaf ac fe'u hailgyhoeddwyd i'r NHS yng Nghymru.

Mae sicrhau bod yr NHS yng Nghymru o leiaf yn darparu'r safonau gofal sylfaenol i gleifion sydd â chanser fel a nodir yn y rhain, yn un o brif flaenoriaethau'r Cynulliad ac mae 'Gwella Iechyd yng Nghymru', cynllun y Cynulliad ar gyfer yr NHS yng Nghymru, yn cadarnhau ein hymrwymiad i gyrraedd y safonau hyn.

**Rhestrau Aros Presennol yn yr Ysbytai**

**C11 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rhestrau aros presennol yn ysbytai Cymru? (OAQ10460) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Rhestrau Aros Diweddaraf**

**C12 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhestrau aros diweddaraf? (OAQ10496) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rhoi Meddyginiaeth i Blant

**C13 Gwenda Thomas:** Pa gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi i'r plant hynny sydd ei hangen yn ystod oriau ysgol, gan gadw'n llym at eu cynllun gofal unigol? (OAQ10531)

**Jane Hutt:** Awdurdodau addysg lleol, mewn partneriaeth â'u hysgolion, sydd yn gyfrifol am lunio polisïau ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion meddygol unigol. Dylai'r polisi hwn gynnwys rhoi meddyginiaeth bresgripsiwn yn ystod oriau'r ysgol. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd cyfreithiol sydd yn mynnu bod ysgolion yn rhoi meddyginiaeth, swyddogaeth wirfoddol ydyw. Cyhoeddwyd Cylchlythyr 34/97 y Swyddfa Gymreig, Cylchlythyr 97/31 Iechyd Cymru a'r canllaw ymarfer da sydd yn cyd-fynd â hwy 'Cymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Meddygol', sydd i gyd yn delio â'r mater, i bob awdurdod addysg lleol ac ysgol, pob awdurdod ac ymddiriedolaeth iechyd, pob undeb athrawon a phob corff perthnasol arall.

### Gofal Arennol yng Ngogledd Cymru

**C14 Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ofal arennol yng ngogledd Cymru? (OAQ10497) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Trawma Niwrolegol Aciwt (Adsefydlu)

**C15 Val Feld:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth bresennol yn ne Cymru ar gyfer adsefydlu pobl sydd wedi dioddef trawma niwrolegol aciwt? (OAQ10461) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Recriwtio Nyrsys yng Nghymru

**C16 David Davies:** Pa gyllid ychwanegol sydd i'w ddarparu ar gyfer recriwtio nyrsys yng Nghymru? (OAQ10493)

**Jane Hutt:** Bydd £150,000 ar gael yn 2001-02 i gyllido cyrsiau dychwelyd-i'r-gwaith i nyrsys a oedd wedi rhoi'r gorau i'r ochr ymarferol ac sydd angen eu hailhyfforddi. Ar ben hynny, bydd £14,577 ar gael i hyfforddi 190 o nyrsys ychwanegol bob blwyddyn yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf. Bydd y nyrsys hyn ar gael i'w recriwtio gan yr NHS yng Nghymru.

Heb os nac oni bai, bydd ymddiriedolaethau'r NHS yn gwario rhywfaint o'r arian ychwanegol a fydd ar gael ar recriwtio rhagor o nyrsys, fodd bynnag nid yw'r wybodaeth honno ar gael ar hyn o bryd.

### Y Gronfa Anghyfartaleddau Iechyd

**C17 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gronfa anghyfartaleddau iechyd? (OAQ10506)

**Jane Hutt:** O fis Ebrill eleni bydd y gronfa anghyfartaleddau iechyd yn cefnogi camau newydd a fydd yn rhoi sylw i anghyfartaleddau iechyd a'r ffactorau sydd yn cyfrannu atynt, gan gynnwys anghyfartaleddau o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd. Mae manylion llawn am y gronfa ar gael yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2001) 006, a ddosbarthwyd i gyrff yn yr NHS, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol.

### Atal Ymosodiadau ar Staff yr NHS

**C18 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau sydd yn cael eu cymryd er mwyn atal ymosodiadau corfforol ar staff yr NHS? (OAQ10504)

**Jane Hutt:** Mae cynllun yr NHS a lansiwyd yn ddiweddar 'Gwella Iechyd yng Nghymru', yn pwysleisio bod rhaid sicrhau bod gwell hyfforddiant ar gael i ddelio â digwyddiadau a bod rhaid cymryd camau llymach yn erbyn y rhai sydd yn ymosod ar staff neu'n eu bygwth. Cynhelir trafodaethau yn NHS Cymru

ynghylch sut y gellir lleihau trais a bygythiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn cyflwyno targedau uchel ar gyfer lleihau digwyddiadau. Yr ydym hefyd yn sicrhau bod uned cydraddoldeb NHS Cymru yn cael ei gwella fel y gall ddarparu gwasanaeth cynghori annibynnol i staff sydd wedi dioddef trais neu fygythiadau yn y gwaith.

**Datblygu Ysbytai Cymuned Newydd**

**C19 Peter Law:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddatblygu ysbytai cymuned newydd ledled Cymru? (OAQ10445)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, awdurdodau iechyd sydd yn gyfrifol am ddatblygu ysbytai cymuned. Rhaid iddynt asesu anghenion yr ardal leol a gweithio gydag ymddiriedolaethau'r NHS, grwpiau iechyd lleol, y sector gwirfoddol ac eraill i gynllunio a blaenoriaethu eu gwasanaethau iechyd drwy eu rhaglenni gwella iechyd i ddiwallu'r anghenion hynny gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Disgrifir y polisi presennol ynghylch defnyddio ysbytai cymuned yn y ddogfen 'Community Hopitals in Wales: the Future'. Yr ydym yn cydnabod bod angen ysbytai lleol llai i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ar sail angen lleol. Dylai pob ysbyty cymuned ddatblygu swyddogaeth a phwrpas clir, a dylai'r cyfleusterau a sgiliau'r staff adlewyrchu swyddogaeth a phwrpas pob ysbyty. Yn y pen draw, fodd bynnag, rhaid cytuno ar ddatblygu ysbytai cymuned a'u swyddogaethau yn lleol.

**Cael Gwared ag Asbestos o Ysbytai**

**C20 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cael gwared ag asbestos o ysbytai Cymru? (OAQ10495) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Asesu Cyhoeddiad y BMA a'i Oblygiadau i Gymru**

**C21 Alun Pugh:** A yw'r Gweinidog wedi asesu cyhoeddiad y BMA '*Keep Smiling: No One's Going To* D*ie*', a'i oblygiadau i bobl Cymru? (OAQ10501) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhestrau Aros Ysbytai a Gyhoeddwyd yn Ddiweddar**

**C22 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar restrau aros yr ysbytai, a gyhoeddwyd yn ddiweddar? (OAQ10492)

**Jane Hutt:** Ddydd Mercher 28 Chwefror cyhoeddwyd ffigurau rhestrau aros ysbytai mis Ionawr 2001. Dangosasant y gostyngiad canrannol mwyaf yn y rhestr cleifion mewnol/achosion dydd ers mis Mawrth 1999, ac yn y rhestr cleifion allanol ers mis Ionawr 1999.

Dros Gymru gyfan, cafwyd gostyngiad o 2,086 (-2.7 y cant) yn rhestr y cleifion mewnol/achosion dydd gyda gostyngiadau yn y pum awdurdod iechyd. Cafwyd gostyngiad hefyd o 5.4 y cant yn nifer y sawl a ddisgwyliai dros 12 mis am driniaeth a gostyngiad o 2.2 y cant yn y nifer a ddisgwyliai dros 18 mis. Cafwyd gostyngiadau ym mhob un o'r prif arbenigeddau yng nghyfanswm y rhestrau aros a'r rhai a ddisgwyliai dros 12 mis.

Cafwyd gostyngiad o 2,254 (-1.2 y cant) yn nifer y cleifion a oedd yn disgwyl am apwyntiad cleifion allanol cyntaf gyda gostyngiadau ym mhob un o'r pum prif arbenigedd ond un.

Ar wahân i fis Rhagfyr, mae'r rhestr cleifion mewnol wedi lleihau bob mis ers mis Mai ac mae'r rhestr cleifion allanol wedi lleihau ers mis Medi. Erbyn hyn yr ydym yn gweld manteision y buddsoddiad ychwanegol a ddarparwyd ym Mai 2000 a disgwyliaf weld rhagor o welliannau yn y misoedd nesaf, er bod y pwysau, yn enwedig ar restrau cleifion allanol, yn parhau yn uchel.

### Rhestrau Aros Ysbytai (Adrodd ar y Cynnydd)

**C23 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â rhestrau aros yr ysbytai yng Nghymru? (OAQ10459) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Diddymu'r Awdurdodau Iechyd

**C24 Peter Black:** Beth yw'r amserlen ar gyfer diddymu'r awdurdodau iechyd, fel a gyhoeddwyd yng nghynllun yr NHS? (OAQ10502)

**Jane Hutt:** Disgwylir y daw gwaith diddymu pob awdurdod iechyd i ben erbyn Ebrill 2003.

Y flaenoriaeth gyntaf yw sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen newid strwythurol, dan gadeiryddiaeth cyfarwyddwr NHS Cymru, i edrych ar oblygiadau diddymu'r awdurdodau iechyd a'r ffyrdd y bydd y Cynulliad a grwpiau iechyd lleol yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau ychwanegol.

### Darparu Beta-interferon i'r Rhai sydd yn Dioddef MS

**C25 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarparu beta-interferon ar yr NHS ar gyfer y rhai sydd yn dioddef o MS yng Nghymru? (WAQ10503)

**Jane Hutt:** Mae pob awdurdod iechyd yng Nghymru yn cyflenwi'r cyffur Beta-interferon, yn unol â chanllawiau Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog Meddygaeth, i gleifion sydd â math atglafychol ysbeidiol y salwch. Mae cyflenwi'r cyffur gan yr NHS ar gyfer ffurfiau eraill sglerosis ymledol yn parhau yn fater y penderfynir arno'n lleol.

### Targedau ar gyfer Rhestrau Aros

**C26 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y targedau y mae wedi'u pennu ar gyfer y rhestrau aros? (OAQ10488)

**Jane Hutt:** Derbyniodd yr awdurdodau iechyd gyllid ychwanegol fis Mai diwethaf ar yr amod eu bod yn cytuno ar dargedau rhestrau aros. Daeth pob un o'r pum awdurdod iechyd yn gyfrifol am gyrraedd y targedau hyn yn eu hardal, cydlynu'r ymdrechion a defnyddio'r adnoddau'n briodol. Mae swyddogion y Cynulliad yn monitro'r datblygiad drwy ei gymharu â'r targedau'n rheolaidd.

Mae nifer o elfennau yn dylanwadu ar restrau aros gan gynnwys newidiadau yn y galw, y gallu i ymdopi, ymarfer a gallu'r staff a'r cleifion i gyrraedd yr ysbyty. Gall newidiadau nas rhagwelwyd yn un o'r rhain helpu neu lesteirio ymdrechion i leihau rhestrau aros.

Mae'r arwyddion diweddaraf yn addawol ac yn dangos y gall NHS Cymru ddod yn agos iawn i'r targedau allweddol, ond ni allaf warantu hynny.

### Rhoi Gwrthiselyddion, Tawelyddion a Chyffuriau Tebyg

**C27 John Griffiths:** Pa strategaeth gaiff ei dilyn er mwyn ceisio sicrhau bod gwrthiselyddion a thawelyddion a chyffuriau tebyg, yn cael eu rhoi pan yn angenrheidiol ac yn briodol yn unig? (OAQ10532) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rhaglenni Hyfforddi Nyrsys

**C28 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefyllfa bresennol rhaglenni hyfforddi nyrsys yng Nghymru? (OAQ10458) [W]

**Jane Hutt:** Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drefniadau contractio â phum sefydliad addysg uwch ledled Cymru i ddarparu hyfforddiant cyn-gofrestru i nyrsys. Y llynedd gwelwyd cynnydd o 17 y cant yn niferoedd y nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd a hyfforddwyd, o'i gymharu â niferoedd 1999—a oedd o ganlyniad i gyllid ychwanegol a alluogodd inni gomisiynu 190 yn rhagor o leoedd hyfforddi. Bydd hyn yn cynyddu bob blwyddyn, hyd nes y bydd 760 o nyrsys ychwanegol yn cael eu hyfforddi yng Nghymru erbyn 2004. Yr ydym yn parhau i gynnig cyfleoedd i nyrsys cynorthwyol sydd yn dymuno hyfforddi fel nyrsys cofrestredig: recriwtiwyd 29 i'r cyrsiau hyfforddi cyn-gofrestru yn 2000 o dan y fenter i weithwyr gofal iechyd cynorthwyol. Yn ychwanegol at hyn, yr ydym yn hyrwyddo cyfleoedd i fuddsoddi mewn dysgu gydol oes a datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer nyrsys, er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn parhau wedi'i ysgogi ac yn ymateb i anghenion cyfnewidiol y gwasanaeth.

### Cynllun yr NHS ar gyfer Cymru

**C29 Christine Gwyther:** Sut y mae cynllun yr NHS yn sicrhau cydbwysedd rhwng hyrwyddo iechyd da ac atal afiechyd? (OAQ10441) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Nifer y Myfyrwyr Meddygaeth yng Nghymru

**C30 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar nifer y myfyrwyr meddygaeth yng Nghymru? (OAQ10491)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd mae 1,015 o fyfyrwyr meddygol wedi cofrestru yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Disgwylir i'r ffigur hwnnw godi at o leiaf 1,385 o fyfyrwyr erbyn 2004 o ganlyniad i'n rhaglen uchelgeisiol i gynyddu nifer yr israddedigion meddygol fel a nodir yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid'. Yn ogystal â'r ganolfan yng Nghaerdydd, a'r ysgol glinigol newydd yn Abertawe, byddwn yn ystyried cynlluniau i ymestyn y cyfleusterau addysg ac ymchwil feddygol ym Mangor, Casnewydd, Wrecsam a Phrifysgol Morgannwg.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Lleihau'r Pwysau Biwrocrataidd ar Ysgolion

**C6 Christine Gwyther:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i leihau'r pwysau biwrocrataidd sydd ar ysgolion? (OAQ10435)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Fis Medi diwethaf, dechreuodd dirprwy brifathro sydd ar secondiad arwain prosiect sydd yn ymchwilio i sut y gellir lleihau'r pwysau biwrocrataidd sydd ar ysgolion. Nod y prosiect yw sicrhau polisi cynaliadwy i leihau pwysau a gaiff gefnogaeth yr holl gyfrandeiliaid sydd mewn ysgolion. Mae cam ymchwil ac ymgynghori cyntaf y prosiect bron â dod i ben. Cyflwynir adroddiad a chynllun gweithredu i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ym Mehefin a chaiff ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf.

### Dyraniadau Ariannol Ychwanegol i Ysgolion

**C7 Gwenda Thomas:** A fydd dyraniad ariannol ychwanegol yn parhau i gael ei roi i ysgolion Cymru yn y dyfodol? (OAQ10476) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Lefelau Rhifedd a Llythrennedd yn Rhondda Cynon Taf

**C8 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y lefelau rhifedd a llythrennedd yn Rhondda Cynon Taf? (OAQ10520) [R]

**Jane Davidson:** Mae ein bryd ar godi safonau llythrennedd a rhifedd dros Gymru gyfan ac yr ydym wedi gosod targedau cenedlaethol uchel ar gyfer 2002 a 2004. Mae cyfraniad awdurdodau addysg lleol tuag at gyflawni'r targedau hynny yn allweddol.

Dengys canlyniadau asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol er 1997 fod ysgolion cynradd Rhondda Cynon Taf wedi gwella'n gyson ac yn gadarn. Mae cyfran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd addysg ysgol gynradd wedi codi tua 12 y cant ar gyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf.

Gwyddom o'i gynllun addysgol strategol fod yr awdurdod yn rhoi strategaethau ar waith a fydd yn cyfrannu at ragor o gynnydd. Yr wyf yn cymeradwyo'r awdurdod am yr hyn y mae wedi ei gyflawni.

**Recriwtio a Chadw Staff**

**C9 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar recriwtio a chadw staff yn y sector addysg uwch yng Nghymru? (OAQ10526)

**Jane Davidson:** Mae pob sefydliad addysg uwch yn gorff annibynnol sydd yn gyfrifol am reoli ei hun, gan gynnwys tâl ac amodau cyflogi staff. Nid yw'r Cynulliad yn gyfrifol am y materion hyn.

Mae fy llythyr arweiniad at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer 2001-02 yn egluro, fodd bynnag, fy mod yn disgwyl i sefydliadau ddilyn polisi'r sector cyhoeddus drwy roi sylw i degwch, a bod angen recriwtio, cymell a chadw staff.

**Polisi Ysgolion Bach**

**C10 Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth bellach i ddatblygu polisi ysgolion bach y Cynulliad? (OAQ10481)

**Jane Davidson:** Cyfeiriaf at fy atebion blaenorol ar y mater hwn (OAQ9603) a (WAQ8650). Nid oes rhagor i'w ychwanegu at hyn ar hyn o bryd.

**Mynd i'r Afael â Chaledi ymhlith Myfyrwyr**

**C11 Delyth Evans:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i fynd i'r afael â chaledi ymhlith myfyrwyr? (OAQ10486)

**Jane Davidson:** Er mwyn helpu myfyrwyr sydd yn wynebu caledi ariannol, mae'r Cynulliad yn darparu cronfeydd caledi i bob sefydliad addysg bellach ac addysg uwch a gyllidir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Diben y cronfeydd hyn yw helpu myfyrwyr sydd â phroblemau ariannol difrifol pan fônt yn astudio a helpu'r rhai sydd yn cael eu hatal rhag rhoi cynnig ar addysg ôl-16 yn y lle cyntaf am resymau ariannol. Yn y flwyddyn academaidd hon, mae £8.974 miliwn wedi bod ar gael i'r perwyl hwn, a bydd yn codi i £11.525 miliwn ar gyfer 2001-02.

Yr wyf wedi comisiynu ymchwiliad annibynnol i galedi ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru, sydd yn delio â'r materion sydd dan sylw adroddiad Cubie yr Alban ac sydd yng nghylch gwaith y Cynulliad. Mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir adroddiad y grŵp erbyn gwanwyn 2001.

**Mynd i'r Afael â'r Diffygion o ran Sgiliau Sylfaenol**

**C12 Alun Pugh:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fynd i'r afael â'r diffygion gwarthus o ran sgiliau sylfaenol yng Nghymru? (OAQ10470) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Brwydro yn Erbyn Anfodlonrwydd ymysg Ymadawyr Ysgol**

**C13 Geraint Davies:** Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau bod strategaeth gynaliadwy ar gael i frwydro yn erbyn anfodlonrwydd ymysg ymadawyr ysgol yng Nghymru? (OAQ10518) [R]

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb ysgrifenedig a roddais i'r union un cwestiwn gan Helen Mary Jones ar 15 Chwefror 2001.

Yn ogystal â'r rhaglenni y cyfeiriais atynt yn fy ateb ysgrifenedig, yr wyf hefyd yn ymwybodol o'r bartneriaeth menter ieuenctid sydd ar waith yn Rhondda Cynon Taf. Fel y gwyddoch, mae'n gynllun sydd yn cael ei redeg gan dîm troseddau ieuenctid Rhondda Cynon Taf a llu cadetiaid y fyddin ar gyfer pobl ifanc sydd yn troseddu. Mae'n canolbwyntio ar elfennau fel arwain a sgiliau tîm, parchu pobl eraill, hunanreolaeth a disgyblaeth. Ar hyn o bryd mae dros 85 y cant o'r rheini sydd yn cymryd rhan yn cwblhau'r cwrs, nid yw 79 y cant ohonynt yn ail droseddu a chofnododd gweithwyr cymdeithasol fod newid cadarnhaol yn 81 y cant o'r rhai a gymerodd ran.

**Dylanwad ELWa**

**C14 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddylanwad ELWa ar gymunedau ar hyd a lled Cymru? (OAQ10508) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Brwydro yn Erbyn y Cynnydd mewn Triwantiaeth**

**C15 Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i frwydro yn erbyn y cynnydd mewn triwantiaeth yn ysgolion Cymru? (OAQ10449)

**Jane Davidson:** Yn 'Gwellcymru.com' yr ydym wedi pennu targedau i ostwng absenoldebau heb ganiatâd o ysgolion gan draean erbyn 2004. Cefnogir y targed hwnnw gan arian y grantiau cynnal addysg a hyfforddiant, a dyrannwyd £3 miliwn i weithgarwch 19, presenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiad, yn 2000-01. Gyda chynnydd cyffredinol yn adnoddau grantiau cynnal addysg a hyfforddiant, mae £9.86 miliwn ar gael ar gyfer mynd i'r afael ag anfanteision cymdeithasol yn 2001-02. Awdurdodau lleol sydd i benderfynu faint o'r arian hwn gaiff ei wario ar broblemau presenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiad. Cafodd yr awdurdodau addysg lleol wahoddiad i gyflwyno ceisiadau sydd yn dangos tystolaeth o waith drwy'r Gwasanaeth Lles Addysg i hyrwyddo camau yn yr ysgol i fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb ac ymddygiad, gan gynnwys triwantiaeth.

Mae canllawiau ar fynd i'r afael â materion sydd yn ymwneud ag anfodlonrwydd mewn ysgolion wedi ei gasglu yng Nghylchlythyr 3/99 y Cynulliad Cenedlaethol, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol'. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys cyngor ymarferol i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ynghylch gweithredu ataliol sydd wedi'i anelu at leihau triwantiaeth. Gofynnir i ysgolion ganolbwyntio ar gamu-i-mewn yn gynnar, gan gynnwys cyswllt diwrnod-cyntaf â rhieni a sefydlu cysylltiadau gweithio da â'r Gwasanaeth Lles Addysg a'r heddlu. Mae'r Cynulliad hefyd yn cefnogi ymdrechion awdurdodau addysg lleol sydd yn gorfod penderfynu ar weithredu lleol sydd yn cyd-fynd â'r targed i leihau triwantiaeth sydd yn eu cynlluniau addysgol strategol.

Pan fydd disgyblion yn colli'r ysgol, mae pwerau newydd dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 yn caniatáu i'r heddlu ddychwelyd triwantiaid a ganfyddir mewn mannau cyhoeddus i'r ysgol neu i rywle a benodir gan yr awdurdod addysg lleol. Wrth ddefnyddio'r pwerau hynny, gofynnir i'r heddlu lunio gorchymyn triwantiaeth lleol ac mae ymgyrchoedd triwantiaeth o'r fath wedi eu cynnal o Fôn i Fynwy. Ar ben hynny, mae darpariaethau newydd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys 2000 wedi cynyddu'r ddirwy i rieni o hyd at £1,000 i £2,500 neu garchar am hyd at dri mis i riant sydd â phlentyn nad yw'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae naw ysgol yng Nghymru hefyd wedi derbyn arian gan raglen lleihau troseddu'r Swyddfa Gartref ar gyfer prosiectau peilot i frwydro yn erbyn triwantiaeth, gyda'r nod o leihau troseddu ymysg pobl ifanc.

**Datblygu Polisi Ysgolion Gwledig**

**C16 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar sut y mae'r gwaith o ddatblygu polisi ysgolion gwledig i Gymru yn mynd rhagddo? (OAQ10433) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu'r Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant**

**C17 Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith o ddatblygu'r consortia cymunedol addysg a hyfforddiant? (OAQ10477) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Tablau ar Berfformiad Ysgolion yn Dod i Ben (Ymgynghori)**

**C18 Alun Cairns:** Pa ymgynghori a fu cyn cyhoeddi bod y tablau ar berfformiad ysgolion yn dod i ben? (OAQ10478)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi cyhoeddi bod y tablau ar berfformiad ysgolion yn dod i ben. Yr wyf, fodd bynnag, wedi cyhoeddi fy mwriad i gyhoeddi cynigion ynghylch trefniadau ar gyfer y data hwn yn y dyfodol. Cyhoeddir papur ymgynghorol ddechrau Ebrill. Cyn llunio'r cynigion cyfarfûm â nifer o brifathrawon a gwrandewais ar yr hyn a oedd ganddynt i'w ddweud a chredaf fod y papur yn adlewyrchu'r sylwadau ac yn rhoi sylw i'r pryderon a leisiwyd yn ystod y trafodaethau hynny.

**Polisïau'r Cynulliad ar Ariannu Addysg**

**C19 Peter Black:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr ysgol yn deall polisïau'r Cynulliad ar ariannu addysg? (OAQ10452) [R]

**Jane Davidson:** Ysgrifennais at gadeiryddion cyrff llywodraethol a phrifathrawon pob ysgol yng Nghymru ar 20 Rhagfyr 2000 i ddarparu gwybodaeth am amrywiaeth o faterion ariannu ac i egluro polisïau'r Cynulliad ar ariannu addysg ac ysgolion yng Nghymru.

**Mynd i'r Afael ag Allgáu Cymdeithasol mewn Ysgolion yn y Gogledd**

**C20 Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yn ein hysgolion, yn arbennig yn y Gogledd? (OAQ10471)

**Jane Davidson:** Yr oedd y Papur Gwyn, 'Adeiladu Ysgolion Ardderchog Gyda'n Gilydd', yn pwysleisio bod angen mynd i'r afael â thangyflawni ac allgáu cymdeithasol ymysg plant sydd â phroblemau ymddygiad neu sydd yn anfodlon. Mae disgyblion anfodlon, sydd efallai yn chwarae triwant neu mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol, yn fwy tebygol o gael eu hallgáu yn gymdeithasol. Mae'r dyfodol yn edrych yn eithaf du i blant o'r fath. Dengys ymchwil y gallant ddechrau troi at ymddygiad peryglus, fel cam-drin sylweddau ac alcohol, ac maent yn fwy tebygol o fod yn ymwneud â gweithgarwch troseddol nes ymlaen yn eu bywyd. Dyma pam ein bod yn cefnogi ymdrechion i leihau absenoldeb a gwaharddiadau o ysgolion.

Yn 'Gwellcymru.com' mae'r Cynulliad wedi gosod targedau i ostwng absenoldebau heb ganiatâd a gwaharddiadau parhaol gan draean erbyn 2004. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r targedau hynny mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi arweiniad dan Gylchlythyr 3/99, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', sydd yn nodi amrywiaeth o weithgarwch yn yr ysgol i roi sylw i anfodlonrwydd disgyblion a herio problemau ymddygiad. Ar ben hynny, mae gan bob awdurdod addysg lleol gynlluniau cymorth ymddygiad i helpu ysgolion i ddelio â phlant sydd â phroblemau ymddygiad ac sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae cyllid ar gael i awdurdodau addysg lleol yn ôl y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i gefnogi gwaith ym maes presenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiad. Gellir defnyddio hwn i gefnogi datblygu'r cwricwlwm, hyfforddi staff, gofal bugeiliol arbenigol, ail-integreiddio a hyfforddiant mewn rheoli ymddygiad. Dyrannwyd £3 miliwn i bresenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiad yn 2000-01 ac, mewn cynnydd cyffredinol yn adnoddau grantiau cynnal addysg a hyfforddiant, mae £9.86 miliwn ar gael ar

gyfer mynd i'r afael ag anfanteision cymdeithasol yn 2001-02. Awdurdodau lleol sydd i benderfynu sut y caiff yr arian hwnnw ei wario o fewn eu blaenoriaethau lleol.

Yr wyf wedi bod yn fodlon ag adroddiadau diweddar gan awdurdodau addysg lleol ar eu gwariant yn y maes hwn yn ystod 2000-01, sydd yn dangos nifer o brosiectau diddorol ac arloesol. Yn Sir y Fflint, er enghraifft, defnyddiwyd adnoddau grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i dalu am athrawon cymorth ymddygiad ym mhob un o'r pedwar cyfnod allweddol, a hyfforddi staff i reoli ymddygiad. Sefydlwyd tîm yn Sir Ddinbych i fonitro cymorth ymddygiad, cynhwysiant cymdeithasol a phresenoldeb yn yr ysgol ac, ym Mhowys, penodwyd dau arweinydd tîm i ddarparu cefnogaeth a chynnig opsiynau cwricwlwm ategol ac amgen ar gyfer disgyblion anfodlon.

**Lleihau'r Gwaith Papur sydd gan Athrawon**

**C21 Ann Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau'r gwaith papur sydd gan athrawon? (OAQ10475) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Pilot ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig**

**C22 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynllun peilot ar gyfer y fagloriaeth Gymreig? (OAQ10440)

**Jane Davidson:** Mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun peilot yn bwrw ymlaen fel a gynlluniwyd. Cyhoeddwyd y manylion ar gyfer y prif gontract datblygu a rheoli i ddarpar dendrwyr ar 2 Mawrth. Gobeithiwn wneud cyhoeddiad ynghylch dyfarniad y contract ym Mai. Ysgrifennais at Gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gan nodi hyn ar 7 Mawrth.

**Y Cod Ymarfer Newydd ar Anghenion Addysgol Arbennig**

**C23 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r cod ymarfer newydd ar anghenion addysgol arbennig? (OAQ10529)

**Jane Davidson:** Derbyniwyd bron i 200 o ymatebion gan grwpiau perthnasol yng Nghymru i ymgynghoriad y Cynulliad ar ddrafft diwygiedig y cod anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd o ran yr effaith a gânt ar ddrafft diwygiedig pellach o'r cod, a fydd, yn amodol ar basio'r Mesur Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd drwy'r Senedd, yn dod gerbron y Cynulliad yn nes ymlaen eleni, ynghyd â'r diwygiadau angenrheidiol i reoliadau anghenion addysgol arbennig, i'w cymeradwyo cyn eu cyhoeddi a'u rhoi ar waith yn y flwyddyn ysgol 2001-02.

Gohebodd sawl Aelod ac Aelod Seneddol â mi ynghylch y prif fater a ddaeth i'r amlwg sef y cynnig i ddisodli'r dyletswydd i 'fanylu' ar ddarpariaeth mewn datganiadau anghenion addysgol arbennig gyda dyletswydd i 'ddisgrifio' darpariaeth. Yr oedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn poeni y byddai newid o'r fath yn gwanhau amddiffynfeydd rhieni ac yn arwain at ddarpariaeth llai effeithiol i ddiwallu anghenion y plant. Ar ôl ystyried y sylwadau hynny, cyhoeddais yn hwyr y llynedd y byddai'r cynnig penodol hwn yn cael ei hepgor o'n cynlluniau i adolygu'r cod.

**Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Chyfleusterau Gofal Plant**

**C24 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu addysg y blynyddoedd cynnar a chyfleusterau gofal plant yn Nyffryn Clwyd? (OAQ10474) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Annog Myfyrwyr Llai Cefnog i Fynd Ymlaen i Addysg Uwch ac Addysg Bellach**

**C25 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno sylwadau am y camau a gymerwyd gan y Cynulliad i annog myfyrwyr o gefndiroedd llai cefnog i fynd ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach? (OAQ10512)

**Jane Davidson:** Mae bryd y Cynulliad ar sicrhau bod addysg ôl-16 ar gael i bawb a all elwa arni, ac ar annog myfyrwyr yn benodol o gefndiroedd incwm isel neu gefndiroedd sydd ag anfanteision cymdeithasol yn ogystal â grwpiau eraill a dangynrychiolir.

Er mwyn cynorthwyo yn hyn o beth, mae'r Cynulliad yn darparu cronfeydd caledi i bob sefydliad addysg bellach ac addysg uwch a gyllidir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Diben y cronfeydd hyn yw helpu'r rhai sydd yn cael eu hatal rhag rhoi cynnig ar addysg ôl-16 yn y lle cyntaf am resymau ariannol a'r rhai â phroblemau ariannol wrth astudio. Yn y flwyddyn academaidd hon, mae £8.974 miliwn wedi bod ar gael i'r perwyl hwn, a bydd yn codi i £11.525 miliwn ar gyfer 2001-02.

Mae'r Cynulliad hefyd yn annog cynghorau cyllido Cymru i'w helpu i gyflawni ei amcanion, sef sicrhau bod addysg ôl-16 ar gael i bawb. Mae'r cynghorau cyllido wedi sefydlu amrywiaeth o raglenni a chynlluniau i hyrwyddo recriwtio a chadw myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir. Disgwyliaf i hyn barhau yn 2001-02 ac ar ôl hynny gan y corff newydd, ELWa.

## Cefnogi Myfyrwyr mewn Colegau Addysg Bellach

**C26 Cynog Dafis:** Pa gymorth a gynigir gan y Gweinidog i golegau addysg bellach i'w galluogi i sicrhau gwelliant o ran adnabod a chefnogi myfyrwyr sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w cyrsiau mewn colegau addysg bellach yng Nghymru? (OAQ10525)

**Jane Davidson:** Mae cylch gwaith Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau addysg bellach i sicrhau gwelliannau o ran lefelau cyrhaeddiad a chadw myfyrwyr. Mae colegau yn ymwybodol o nifer ac amrywiaeth y materion sydd yn dylanwadu ar gadw myfyrwyr. Gyda chefnogaeth y cyngor, maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn drwy:

addasu'r cwricwlwm i ddarparu rhaglenni sydd yn bodloni anghenion myfyrwyr yn well, er enghraifft, cyrsiau gyda mwy o gynnwys ymarferol;
gwella cysylltiadau rhwng gwasanaethau canolog myfyrwyr a thimau cyrsiau;
darparu system cefnogaeth diwtorial;
darparu mecanweithiau cefnogi myfyrwyr, gan gynnwys cyfleusterau gofal plant, cyngor ar ddilyniant, cefnogaeth sgiliau sylfaenol ac allweddol a chyngor ariannol;
monitro presenoldeb a chysylltu â rhieni myfyrwyr absennol (pan fo hynny'n briodol); a phennu dangosyddion monitro perfformiad ar lefel cyfadran a chwrs.

Ar ben hynny, er mwyn helpu myfyrwyr sydd yn wynebu caledi ariannol tra'n astudio, mae'r Cynulliad yn darparu cronfeydd mynediad i bob sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Anelir y cronfeydd hyn yn benodol at helpu myfyrwyr a fyddai fel arall yn rhoi'r gorau i'w cyrsiau oherwydd problemau ariannol (neu y byddai rhesymau ariannol yn eu hatal rhag dechrau eu cwrs). Mae £4.2 miliwn ar gael yn y flwyddyn academaidd hon i'r perwyl hwn, a bydd yn codi i £6.1 miliwn yn 2001-02.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi comisiynu ymchwiliad annibynnol i galedi a chyllid myfyrwyr yng Nghymru. Mae hwn yn edrych ar fyfyrwyr mewn addysg bellach yn ogystal â myfyrwyr mewn addysg uwch. Mae'r ymchwiliad yn bwrw ymlaen a disgwylir adroddiad y grŵp erbyn gwanwyn 2001.

## Ymweliadau ag Ysgolion Cynradd y Canolbarth a'r Gorllewin

**C27 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru unrhyw ymweliadau y bu arnynt ag ysgolion cynradd yn ardal y Canolbarth a'r Gorllewin yn 2001? (OAQ10480)

**Jane Davidson:** Dim yng nghanolbarth na gorllewin Cymru hyd yn hyn. Yr wyf wedi derbyn gwahoddiad agored gan Kirsty Williams AC i ymweld ag ysgolion yn Aberhonddu a Sir Faesyfed a gobeithiaf wneud hynny pan gyfyd cyfle priodol. Yn yr un modd, yr wyf yn awyddus i ymweld ag ysgolion mewn cymaint o fannau yng Nghymru ag sydd yn bosibl, gan gynnwys gorllewin Cymru, ac

unwaith eto bwriadaf wneud hynny cyn gynted ag sydd yn bosibl. Yn y cyfamser, yr wyf yn fodlon ystyried unrhyw wahoddiadau unigol a dderbyniaf gan ysgolion penodol neu ynglŷn ag ysgolion penodol.

**Sefydlu Ysgolion Arbenigol**

**C28 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefydlu ysgolion arbenigol yng Nghymru? (OAQ10523)

**Jane Davidson:** Nid oes cynlluniau i sefydlu ysgolion arbenigol yng Nghymru. Mae Papur Gwyrdd diweddar y Llywodraeth ar ysgolion, 'Schools Building on Success', yn berthnasol i Loegr yn unig.

**Arian Ychwanegol ar gyfer Ysgolion Cymru**

**C29 David Davies:** A gaiff ysgolion Cymru yr un arian ychwanegol ag ysgolion Lloegr o ganlyniad i gyllideb 2001? (OAQ10482)

**Jane Davidson:** Ni phenderfynwyd hyd yn hyn ynghylch defnyddio'r arian ychwanegol a ddaw i Gymru o ganlyniad i gyhoeddiadau cyllideb y Canghellor. Mae cyhoeddiadau a wnaethpwyd gan y Canghellor a chan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth ynghylch arian ar gyfer ysgolion yn berthnasol i Loegr yn unig.

**Y Berthynas Rhwng Addysg ar Ddinasyddiaeth a'r Niferoedd sydd yn Pleidleisio**

**C30 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y berthynas rhwng addysg ar ddinasyddiaeth mewn ysgolion a'r niferoedd sydd yn pleidleisio? (OAQ10511)

**Jane Davidson:** Mae addysg ar ddinasyddiaeth yn elfen bwysig o'r fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol, a roddwyd ar waith mewn ysgolion yng Nghymru fis Medi 2000, ochr yn ochr â'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig i Gymru.

Mae agwedd gymunedol y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol yn ceisio sicrhau bod disgyblion yn ystyried eu hawliau a'u cyfrifoldebau mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae hefyd yn anelu at hyrwyddo llythrennedd wleidyddol ymysg pobl ifanc sydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau a llunio barn yn effeithiol ym maes systemau gwleidyddol a chyfreithiol. Gobeithiaf y bydd hyn yn helpu i hybu'r niferoedd sydd yn bwrw'u pleidlais yn y dyfodol.